

Rhan F - Ar ôl datgan y canlyniad

Refferendwm ar aelodaeth y DU o'r
Undeb Ewropeaidd: canllawiau i
Swyddogion Cyfrif

Cyhoeddwyd Ionawr 2016 (diweddarwyd ddiwethaf Mai 2016)

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol; defnyddir 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer y bleidlais hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Rhif paragraff
Mai 2016	Wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r ddeddfwrieth derfynol (gan gynnwys cadranhau dyddiad y bleidlais) a chyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif a gadarnhawyd, ac i gynnwys cyfeiriadau deddfwriaethol	

Cynnwys

1	Storio a gwaredu dogfennau	1
	Y dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon neu eu cadw.....	2
2	Gweithgarwch ôl-refferendwm	5
	Datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post	5
	Casglu data ac adborth	5
	Rhoi cyfrif am y refferendwm	6
	Dychwelyd cyfarpar	7
3	Herio'r refferendwm.....	8
4	Adolygu gweithdrefnau refferendwm	9
	Yr adolygiad	9
5	Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.....	11

1 Storio a gwaredu dogfennau

1.1 Rhaid i'r ddogfennaeth a restrir ym mharagraffau **1.10** i **1.14** isod gael ei chadw'n ddiogel am flwyddyn o ddyddiad y bleidlais¹.

1.2 **Yng Nghymru a Lloegr**, rhaid i'r dogfennau hyn gael eu hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer yr ardal bleidleisio².

1.3 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer yr ardal bleidleisio hefyd, dylech gysylltu ag ef ar gam cynnar i roi trefniadau ar waith i anfon y dogfennau rhagnodedig ar ôl i'r cyfansymiau lleol gael eu datgan. Dylech sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac y rhoddir cyfrif amdani wrth iddi gael ei hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

1.4 **Yn yr Alban**, rhaid i'r Swyddog Cyfrif gadw'r dogfennau ar gyfer ei ardal bleidleisio³.

1.5 **Yng Ngogledd Iwerddon**, rhaid i'r Swyddog Cyfrif ar gyfer Gogledd Iwerddon gadw'r dogfennau⁴.

1.6 Sut bynnag, dylech sicrhau bod y broses becynnu mor dryloyw â phosibl. Yn y naill achos neu'r llall, dylech gynnal llwybr archwilio clir wrth becynnu ac anfon y dogfennau gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall unrhyw un sy'n dymuno archwilio'r dogfennau cyhoeddus wneud hynny. Dylai'r system becynnu a labelu a ddefnyddiwch ddarparu dull storio diogel a chefnogi proses adfer amserol.

1.7 Gellir sicrhau llwybr archwilio clir a phroses dryloyw drwy wneud y canlynol:

- Cynhyrchu labeli clir ar gyfer pob paced. Rhaid i chi selio'r holl ddogfennaeth berthnasol mewn pacedi ar wahân a marcio pob paced gyda disgrifiad o'i gynnwys, dyddiad y refferendwm a'r refferendwm y mae'n cyfeirio ato⁵. Rhaid i'r label hefyd gynnwys enw'r ardal bleidleisio a dylai nodi am ba hyd y dylid cadw'r paced a phryd y dylid ei ddiinstrio oni nodir fel arall gan yr Uchel Lys neu'r llys sirol neu, yn achos ardal bleidleisio yn yr Alban, y Llys Sesiwn neu'r siryf. Dylai'r labeli ar gyfer dogfennau y gall y cyhoedd eu gweld a'r labeli ar gyfer dogfennau na all y cyhoedd eu gweld fod yn wahanol. Fel gofyniad sylfaenol, dylai'r pacedi sy'n cynnwys dogfennau na all y cyhoedd eu gweld nodi'r ffaith hon.
- Sicrhau eich bod wedi ystyried y gwaith o becynnu'r dogfennau wrth gynllunio eich proses dilysu a chyfrif.

- Ymdrin â chyfarwyddiadau pacio fel rhan o'ch hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ac wrth hyfforddi goruchwylwyr pleidleisiau post a chyfrif. Dylai darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig helpu hefyd i leihau'r risg y caiff dogfennau eu pacio'n anghywir. Mae [templed o ganllaw graffigol ar ddeunyddiau pecynnu ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio](#) hefyd ar gael, y gallech ei addasu a'i roi i staff gorsafoedd pleidleisio.
- Creu rhestr o'r holl ddogfennau i'w hanfon neu eu cadw (fel y bo'n briodol). Dylech gadw cofnod o'r holl ddeunyddiau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol (yng Nghymru a Lloegr) neu i'w cadw (yn yr Alban a Gogledd Iwerddon), a sicrhau y rhoddir cyfrif am yr holl eitemau. Mae paragraffau **1.10**, **1.11** a **1.14** isod yn darparu rhestrau o'r dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon neu eu cadw. Wrth anfon dogfennau, dylech hefyd wneud y canlynol:
 - cofnodi nifer y parseli rydych wedi eu hanfon
 - cofnodi manylion y Swyddog Cofrestru Etholiadol y cawsant eu hanfon ato
 - cael derbynneb gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn nodi bod y parseli wedi cael eu derbyn yn ddiogel

1.8 Dylai pob paced a chynhwysydd sy'n cynnwys dogfennau refferendwm gael eu cadw'n ddiogel cyn eu trosglwyddo i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu cyn iddynt gael eu storio (fel y bo'n briodol) fel na all unrhyw un heb awdurdod ymyrryd â hwy.

Y dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon neu eu cadw

1.9 Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i selio'r dogfennau a restrir isod ac, ar ôl gorffen cyfrif y papurau pleidleisio, rhaid i chi eu hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol yng Nghymru a Lloegr, neu eu cadw yn yr Alban a Gogledd Iwerddon⁶.

1.10 O'r gorsafoedd pleidleisio⁷:

- y paced sy'n cynnwys:
 - y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd
 - y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
 - y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau
 - y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
 - y datganiadau yn ymwneud â phleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
 - y rhestr o bobl yr anfonir papurau pleidleisio atynt ar ôl i wall clercaidd gael ei gywiro neu o ganlyniad i benderfyniad ar apêl i'r llys sirol neu'r siryf

- copïau wedi eu marcio o'r gofrestr o etholwyr, y rhestr wedi ei marcio o ddirprwyon ac unrhyw hysbysiadau copi wedi'u marcio o ganlyniad i gywiro gwall clercaidd neu benderfyniad ar apêl i'r llys perthnasol
- y pacedi sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y gorsafoedd pleidleisio wedi'u cwblhau
- tystysgrifau cyflogaeth y rhai ar ddyletswydd ar y diwrnod pleidleisio

1.11 **Ym Mhrydain Fawr**, o'r pleidleisiau post a ddsbarthwyd ac a agorwyd⁸:


- copïau wedi'u marcio o restr y pleidleiswyr post a rhestr y pleidleiswyr post drwy ddirprwy
- y pacedi sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y pleidleisiau post wedi'u cwblhau
- y pacedi o ddatganiadau pleidleisiau post a dderbyniwyd fel rhai dilys
- y pacedi o bleidleisiau post a wrthodwyd
- y pacedi o amlenni papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd
- y rhestrau o bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd, a gollwyd ac a ddifethwyd
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd a'r dogfennau ategol
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post a gollwyd a oedd yn cynnwys unrhyw ran o'r pecyn pleidleisio drwy'r post nas collwyd ac a ddychwelwyd atoch cyn i chi anfon un arall yn ei le
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post, datganiadau ac amlenni a ganslwyd
- pecynnau pleidleisio drwy'r post nas agorwyd a dderbyniwyd ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio neu a ddychwelwyd fel rhai nas ddsbarthwyd (gellir eu hanfon ar ddyddiad arall yn nes ymlaen)

1.12 **Yng Ngogledd Iwerddon**, o'r pleidleisiau post a ddsbarthwyd ac a agorwyd⁹:

- copïau wedi'u marcio o restr y pleidleiswyr post a rhestr y pleidleiswyr post drwy ddirprwy
- y pacedi sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y pleidleisiau post wedi'u cwblhau
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd a'r datganiadau ynghylch pwy ydych chi a ganslwyd
- y pacedi o bleidleisiau drwy'r post a wrthodwyd
- y pacedi o ddatganiadau ynghylch pwy ydych chi
- y pacedi o bleidleisiau post a gyflwynwyd a gafodd eu gwrthod
- y rhestrau o bapurau pleidleisio drwy'r post a gyflwynwyd ac a gafodd eu difetha
- y datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post

1.13 Ym Mhrydain Fawr, rhaid i chi hefyd anfon y canlynol at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, y datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post a'r rhannau perthnasol o'r rhestr o bleidleisiau post sydd wedi methu'r gwiriadau

dynodyddion¹⁰. Yng Nghymru a Lloegr rhaid i hyn gael ei wneud ar yr un pryd ag yr anfonwch y dogfennau uchod. Ar yr un pryd ag yr anfonwch y dogfennau dylech anfon cofnod o unrhyw achosion lle rydych yn amau bod trosedd wedi'i chyflawni, fel bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gwybod ym mha achosion na ddylai anfon hysbysiad o wrthod dynodyddion pleidlais bost. Yng **Ngogledd Iwerddon** caiff y datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post ei gadw gennych.



I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y rhestrau amrywiol sy'n ymwneud â phleidleisio drwy'r post, gweler [Rhan D: Pleidleisio absennol](#).

1.14 O'r cyfrif¹¹:


- storio papurau pleidleisio ar wahân fel:
 - papurau pleidleisio a gyfrifwyd
 - papurau pleidleisio a wrthodwyd
 - papurau pleidleisio nas defnyddiwyd (rhai cyffredin a rhai a gyflwynwyd) a phapurau pleidleisio a ddifethwyd (a osodir gyda'i gilydd)
 - papurau pleidleisio a gyflwynwyd a gafodd eu defnyddio.
- cyfrifon y papurau pleidleisio, canlyniad dilysu cyfrifon y papurau pleidleisio a'r datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd

1.15 [Mae canllawiau cadw ac archwilio](#) er mwyn helpu gyda'r gwaith o drin y deunyddiau yn gywir ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn.

2 Gweithgarwch ôl-refferendwm

Datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post

2.1 Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i gwblhau datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer y refferendwm¹². Mae'r ddogfen hon yn hanfodol ar gyfer cyfrifo pleidleisiau post ac am sicrhau y gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt. Dylai'r datganiad fod yn rhan o'r trefniadau sydd ar waith gennych i gynnal llwybr archwilio clir o'r prosesau pleidleisiau post a chyfrif. Dylech gwblhau'r datganiad yn gywir gan ddefnyddio'r ffigurau a gofnodwyd wrth anfon, derbyn, agor a dilysu pleidleisiau post.



Ceir rhagor o fanylion am gadw cofnodion wrth weinyddu'r broses pleidleisio drwy'r post yn [Rhan D - Pleidleisio absennol](#).

2.2 Bydd y Comisiwn yn llunio datganiad templed o ran papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer y refferendwm, y dylid ei ddefnyddio. Dylai'r nodiadau canllaw ategol eich helpu i gwblhau hwn.

2.3 Ym **Mhrydain Fawr**, rhaid i chi anfon y datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post at y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yng Nghymru a Lloegr, rhaid gwneud hyn ar yr un pryd ag yr anfonwch ddogfennau eraill y refferendwm a restrir ym mharagraff **1.10**, **1.11** a **1.14**. Yng **Ngogledd Iwerddon**, caiff y datganiad ei gadw gennych chi¹³.

2.4 Rhaid i chi hefyd roi copi o'r datganiad i'r Comisiwn ac, ar gyfer Swyddogion Cyfrif ym Mhrydain Fawr, i'r Ysgrifennydd Gwladol¹⁴. Ni ddylai'r datganiad gael ei ddarparu cyn y degfed diwrnod calendr ar ôl y bleidlais, ond rhaid iddo gyrraedd erbyn y 15fed diwrnod calendr ar ôl y bleidlais fan pellaf.

Casglu data ac adborth

2.5 Gofynnir i chi hefyd anfon gwybodaeth a data i helpu'r Comisiwn i adrodd ar y refferendwm.

2.6 Caiff ffurflenni ar gyfer casglu gwybodaeth a data, a nodiadau canllaw ategol ar gyfer eu cwblhau, yn ogystal â ffurflen adborth, eu dosbarthu ar wahân.

Rhoi cyfrif am y refferendwm

2.7 Gwnaed Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau ar gyfer y refferendwm sy'n nodi faint o arian y byddwch yn gallu ei hawlio. Mae'r Comisiwn hefyd wedi rhoi canllawiau a chyfarwyddiadau manwl ar gyfer rhoi cyfrif am y refferendwm.



[Mae'r Refferendwm ar Aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd \(Taliadau Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol\) 2016](#) yn nodi'r uchafsymiau y ellir eu hadennill gan Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol am eu gwasanaethau a'u treuliau mewn perthynas â'r refferendwm.

Rydym wedi llunio [nodiadau canllaw ar dreuliau Swyddogion Cyfrif](#) a [dogfen Cwestiynau Cyffredin ar Ffioedd a Thaliadau](#) sydd ar gael ar ein gwefan ynghyd â [Ffurflenni Hawlio Treuliau Swyddogion Cyfrif](#).

Rydym hefyd wedi llunio [Rheoliadau Cyfrifon y Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Phrif Swyddogion Cyfrif \(Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd\) 2016](#) sy'n nodi bod yn rhaid derbyn hawliadau erbyn 23 Rhagfyr 2016.

Talu credydwyr

2.8 Dylech gadw derbynebaw drwy gydol cyfnod y refferendwm ar gyfer pob gwasanaeth/gwaith a ddarparwyd, a thalu pob credydwr cyn gynted â phosibl ar ôl y bleidlais.

Talu ffioedd i staff

Treth incwm

2.9 Mae newidiadau i drefniadau treth incwm yn cynnwys dod â'r datganiad dim rhwymedigaeth treth cyfredol i ben (P527) a rhoi rhestr wirio dechreuwr safonol yn ei le a gyhoeddir ar adeg y penodiad, a dim ond unwaith y bydd yn rhaid gwneud hyn yn hytrach na'i adolygu bob blwyddyn fel y gwneir gyda'r P527. Ni chaiff ffurflen P528, a roddir ar hyn o bryd yn lle P60, ei defnyddio mwyach, ond bydd angen i chi roi ffurflen P60 i'r cyflogai ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

Gwybodaeth amser real CThEM

2.10 Bydd pob taliad refferendwm a wneir yn y flwyddyn dreth sy'n dechrau ym mis Ebrill 2016 yn ddarostyngedig i system taliadau treth gwybodaeth amser real CThEM. Dylech sicrhau eich bod yn cysylltu ag adrannau cyllid ac adnoddau dynol eich awdurdod lleol er mwyn sicrhau y gallwch gydymffurfio â'r rheolau treth ar gyfer pob un o'ch cyflogeion, gan gynnwys unrhyw staff dros dro a staff contract tymor byr. Ceir canllawiau pellach gan [CThEM](#).

Cofrestru'n awtomatig mewn pensiwn yn y gweithle

2.11 Rhaid i bob cyflogwr sydd â staff sy'n gweithio yn y DU gydymffurfio â'r gofynion o ran cofrestru'n awtomatig. Ceir canllawiau pellach gan [y Rheoleiddiwr Pensiynau](#).

Dychwelyd cyfarpar

2.12 Dylech wneud trefniadau i ddychwelyd unrhyw gyfarpar, fel blychau pleidleisio gwag, i'w man storio.

3 Herio'r refferendwm

3.1 Dim ond trwy gais am adolygiad barnwrol y gellir herio nifer y papurau pleidleisio a gaiff eu cyfrif neu'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw yn y refferendwm, fel y'u hardystiwyd gan y Prif Swyddog Cyfrif, Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif¹⁵.

3.2 Byddai'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos i'r Llys fod ganddo ddigon o ddiddordeb (sef 'standing' yn Saesneg - statws) yng nghanlyniad y refferendwm, a'r Llys fyddai'n penderfynu a oes gan yr ymgeisydd statws.

3.3 Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais am adolygiad barnwrol o fewn chwe wythnos i wneud yr ardystiad sy'n cael ei herio.

3.4 Byddai'n rhaid i'r ymgeisydd herio penderfyniad, gweithred neu anweithred benodol yr oedd yr ymgeisydd yn honni ei fod/bod yn anghyfreithlon ac a arweiniodd at ardystiad anghywir.

3.5 Os bydd y Llys yn barnu bod penderfyniad, gweithred neu anweithred benodol yn anghyfreithlon, gall orchymyn i'r ardystiad gael ei roi o'r neilltu neu, mewn rhai achosion, gall y Llys ddatgan y canlyniad cywir.

3.6 Dylid cynghori unrhyw un sy'n cysylltu â chi i holi ynghylch herio'r refferendwm i geisio ei gyngor cyfreithiol annibynnol ei hun. Os cewch ymholiadau o'r fath, dylech hysbysu eich Swyddog Cyfrif Rhanbarthol.

4 Adolygu gweithdrefnau refferendwm

4.1 Dylech gynnal gwerthusiad trylwyr o'r holl brosesau a amlinellir yn eich cynllun prosiect, gan geisio adborth gan randdeiliaid priodol, a llunio dogfen ar y gwersi a ddysgwyd y dylid ei defnyddio i lywio'r cynllun prosiect a'r gofrestr risg ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

4.2 Mae'r [templed ar gyfer cynllun prosiect](#) yn cynnwys rhai amcanion enghreifftiol ac adnoddau a awgrymir a fydd yn eich galluogi i fesur i ba raddau y mae trefn cynnal y refferendwm wedi bod yn llwyddiannus. Mae hefyd yn cynnwys cynllun gwerthuso i'ch helpu gyda'r broses adolygu.

Yr adolygiad

4.3 Dylai cwmpas yr adolygiad gwmpasu pob agwedd ar y refferendwm. Dylai eich cynllun prosiect gael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad, a dylai pob proses y cynlluniwyd ar ei chyfer ac a gyflawnwyd gael ei hadolygu.

4.4 Rhan allweddol o'r adolygiad fydd ystyried y nodau a'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun prosiect a mesur eich perfformiad yn eu herbyn.

4.5 Dylech dalu sylw arbennig i adolygu'r canlynol:

- eich gwaith cynllunio prosiect
- y cydweithrediad rhyngoch chi a'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol
- p'un a oeddech yn gallu sicrhau digon o adnoddau
- sut y cafodd contractwyr eu rheoli ac a wnaethant gyflawni gwaith yn unol â'r fanyleb ofynnol
- y cyfarpar a'r deunydd swyddfa a ddefnyddiwyd
- recriwtio a hyfforddi staff
- addasrwydd y lleoliadau a ddefnyddiwyd
- y gwaith o reoli gorsafoedd pleidleisio, y broses pleidleisio absennol, a'r broses dilysu a chyfrif
- y gwaith o brosesu ac ymdrin ag ymholiadau
- unrhyw faterion a effeithiodd ar ddiogelwch/uniondeb y refferendwm

4.6 Fel rhan o'r adolygiad dylech geisio adborth gan randdeiliaid priodol.

4.7 Dylech geisio adborth gan y canlynol:

- eich staff
- y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol
- etholwyr
- ymgyrchwyr refferendwm a'u hasiantiaid

- sefydliadau lleol o bobl anabl, pobl hŷn a grwpiau ethnig lleiafrifol, a swyddogion mynediad y cyngor

4.8 Er mwyn cael adborth gan eich staff, er enghraifft, dylech ystyried gwahodd nifer ohonynt, gan gynnwys staff gorsafoedd pleidleisio, i ddod i gael trafodaeth er mwyn ymdrin â phob agwedd ar y broses sy'n ymwneud â gorsafoedd pleidleisio, o'r sesiynau hyfforddi a briffio hyd at ddelio â sefyllfaoedd anodd ar y diwrnod pleidleisio. Gallech hefyd ystyried unrhyw adborth a ddarparwyd mewn adroddiadau a gyflwynwyd gan Swyddogion Llywyddu ac arolygwyr gorsafoedd pleidleisio.

4.9 Ar ôl i chi adolygu pob agwedd ar y refferendwm a cheisio adborth gan randdeiliaid priodol, dylech lunio dogfen yn nodi'r gwersi a ddysgwyd. Dylai'r ddogfen honno gynnwys dadansoddiad o ba arferion fu'n llwyddiannus a ble arall y gellid eu defnyddio, beth fydddech chi'n ei wneud eto neu'n wahanol, ac argymhellion allweddol. Dylai'r adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd gael ei ddefnyddio wedyn i lywio'r cynllun prosiect a'r gofrestr risg ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

5 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

5.1 Yn dilyn y refferendwm efallai y cewch geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002. O dan y Ddeddf hon, nid awdurdod cyhoeddus yw Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol na Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac, fel y cyfryw, maent wedi'u heithrio rhag y gofynion datgelu a osodir ganddi.

5.2 Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, dylai Swyddogion Cyfrif, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ar yr amod bod y wybodaeth hon eisoes yn eiddo i'r cyhoedd, neu ar yr amod nad yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys data personol. Enghraifft o ddata nad yw'n bersonol fyddai data ystadegol yn dangos cyfanswm nifer yr etholwyr a gofrestrwyd yn eich ardal neu nifer y pleidleiswyr post.

-
- ¹ Rheol 58(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ² Rheol 56(1)(a) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ³ Rheol 56(1)(b) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ⁴ Rheol 102 o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ⁵ Rheolau 55 a 56(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ⁶ Rheol 55(1) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ⁷ Rheol 56 o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ⁸ Rheol 91 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reol 48 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016, Rheol 91 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reol 49 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ⁹ Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Gogledd Iwerddon) 2008, Rheol 91 fel y'i diwygiwyd gan Reol 102 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal).
- ¹⁰ Rheol 91 (3A) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 fel y'i diwygiwyd gan reol 48 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016, rheol 91A(1) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reol 50 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ¹¹ Rheol 56(2)(a) a (b) o Atodlen 1 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ¹² Rheol 91 (1)(b) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reol 48 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016, Rheol 91(1)(b) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reol 49 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ¹³ Rheol 56(2)(h) o Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ¹⁴ Rheol 91(5) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reol 43 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016, Rheol 91(5) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Yr Alban) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reol 49 o Atodlen 3 i Reoliadau Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016
- ¹⁵ Paragraff 19 o Atodlen 3 i Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015